



Annwyl cwsmer

**Swyddfa Bost® Cwm-parc
177 Heol y Parc, Treorci, CF42 6HY**

Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynllun i symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i Siop S & N, Heol y Parc, Treorci, CF42 6LF, lle caiff ei rhedeg fel un o ganghennau lleol ffasiwn newydd Swyddfa'r Post.

Cawsom 25 ymateb unigol gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol, gan gynnwys 19 o lythyron ymgyrchu, yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Yn bennaf, roedd yr ymatebwyr yn mynegi pryderon am fynediad yn y lleoliad newydd, ac roedd eraill yn gwneud sylw ynghylch faint o le sydd ar gael yn Siop S & N. Bu'r ymateb hwn o gymorth imi ddeall pryderon cwsmeriaid a gwneud yn siŵr fod yr holl wybodaeth o'r fath yn cael ei hystyried wrth inni wneud ein cynlluniau terfynol.

O ran cefndir ein cynllun, mae symud y gangen hon yn rhan o'n cynlluniau i foderneiddio a buddsoddi yn y rhwydwaith swyddfeydd post er mwyn darparu rhwydwaith sydd yn gynaliadwy ac a fydd yn gallu ateb gofynion cwsmeriaid yn well yn y dyfodol. Fel rhan o'r rhaglen, nod ein cynllun i adleoli Swyddfa Bost Cwmparc yw helpu i ddiogelu gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol yn yr hirdymor trwy ddarparu gwasanaeth sy'n fwy modern a hyfw. Mae nifer o ffactorau yn cael eu hystyried yn y broses o benodi gweithredydd newydd, gan gynnwys mynediad i'r adeilad, ei faint, a chyfaddasrwydd y gweithredydd. Mae'r prosesau a ddilynwn yn hirsefydlog ac yn gadarn, a phenodwyd y gweithredydd newydd yn llwyddiannus ar ôl cwblhau ein proses ymgeisio.

Er fy mod wedi ystyried y pryderon am barcio yng nghyffiniau'r lleoliad newydd, mae'n deg dweud fod hyn yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Rwy'n siŵr y byddwch yn deall fod y lle sydd ar gael i barcio a'r cyfyngiadau ar barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Fodd bynnag, rwyf wedi edrych eto ar y sefyllfa. Am fod y safle newydd mor agos, bydd y trefniadau parcio'n dal yr un fath, a bydd modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw ac yn y cyffiniau. Felly, rwy'n fodlon y bydd y mynediad a'r cyfleusterau parcio yn ateb gofynion cwsmeriaid sy'n defnyddio'r Swyddfa Bost.

Rydym yn sylweddoli fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl cyn i'r gangen newydd agor. Mae ein gweithredydd newydd yn llwyr ddeall taw gweithredwyr sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr fod eu hadeiladau yn bodloni'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, ac mae'n dda gennyf gadarnhau y byddant yn gosod ramp parhaol wrth y fynedfa cyn i'r Swyddfa Bost newydd agor.

Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ffasiwn-newydd weithredu ochr yn ochr â'r siop. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi a ffitiadau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno i wneud yn siŵr oes unrhyw rwystrau wrth ddod i mewn i'r adeilad. Bydd y llwybrau a'r man lle bydd cwsmeriaid yn aros eu tro yn cael eu cadw heb rwystrau a bydd digon o le i gwsmeriaid ac i gadair olwyn symud o gwmpas y siop a chyrchu gwasanaethau'r Swyddfa Bost heb anhawster.

Byddwn hefyd yn cydweithio'n glos â'r gweithredydd newydd i wneud yn siŵr fod yna ddigon o breifatrwydd wrth fan gwasanaeth Swyddfa'r Post. Er enghraifft, rydym yn trafod materion fel cynllun y ciw a gofyn i gwsmeriaid aros i ffwrdd o'r cownter wrth aros eu tro am wasanaeth. Bydd y staff yn derbyn hyfforddiant yn unol â safonau Swyddfa'r Post, a bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau a chanllawiau i ddiogelu preifatrwydd a chyfrinachedd cwsmeriaid. O ran diogelwch, hefyd – yr un modd ag mewn unrhyw gangen arall yn ein rhwydwaith - byddai canllawiau a chamau diogelwch ar waith er mwyn diogelu cwsmeriaid, staff a'r arian a stoc sydd dan ofal y gweithredydd.

Bydd y Swyddfa Bost leol ffasiwn newydd yn cael ei rhedeg o fan gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gownter y siop, lle gall cwsmeriaid gael hyd i ddewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post, gan gynnwys casglu eitemau na fu modd eu dosbarthu, ochr yn ochr â thrafodion y siop. Mae trafodion Swyddfa'r Post i fod yn gyflym ac effeithlon fel bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth effeithlon a chyflym heb orfod aros eu tro am yn hir. Mae hyn yn golygu na fydd nifer fach o drafodion sy'n cymryd mwy o amser, sy'n gymhleth neu sy'n golygu defnyddio papur, ar gael yn y gangen newydd. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau y bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd yn y gangen newydd. Bydd y nifer fach iawn o wasanaethau na fydd ar gael bellach ar gael yn Swyddfa Bost Treorci, lle na fydd alcohol yn cael ei werthu. Gall hefyd fod yn ddewis gwahanol i unrhyw gwsmer nad yw'n dymuno defnyddio'r gangen newydd. Mae'n cynnig y dewis llawn o gynhyrchion Swyddfa'r Post.

Rhoddais ystyriaeth ofalus i'n cynllun gwreiddiol, yr ymateb a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r effaith ar drigolion lleol a'r gymuned ehangach. Wedi cael golwg ar sut gall cerddwyr a cherbydau gyrraedd y safle newydd, rydym yn ffyddiog fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn help i roi dyfodol hirdymor cynaliadwy i wasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ar Dydd Llun 19 Mehefin, 2017, a bydd y gangen newydd yn agor yn Siop S & N, Heol y Parc am 13:00 ar Dydd Mawrth 20 Mehefin, 2017. Os bydd unrhyw newidiadau annisgwyl i'r amserlen, bydd posteri'n cael eu harddangos yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Treorci, 21-23 Y Stryd Fawr, Treorci, CF42 6NP

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 376611

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar gael trwy fynd i'n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk neu gallwch gael copi wrth gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch i chi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

- postofficeviews.co.uk
- comments@postoffice.co.uk
- Llinell Gymorth: 03457 22 33 44
Ffôn testun: 03457 22 33 55
- FREEPOST Your Comments

Sylwch taw hwn yw'r cyfeiriad llawn ac nad oes angen rhagor o fanylion.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar-lein. I'w gweld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa app.



I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

| Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Cwm-parc | | | | | | | | | | | | | | | |
|--|--|------|---------------|--------|---------------|---------|---------------|-----|---------------|--------|---------------|--------|---------------|-----|---------------|
| Cyfeiriad | Siop S & N Heol y Parc Treorci CF42 6LF | | | | | | | | | | | | | | |
| Oriau agor | <table border="1"><tbody><tr><td>Llun</td><td>07:00 – 21:00</td></tr><tr><td>Mawrth</td><td>07:00 – 21:00</td></tr><tr><td>Mercher</td><td>07:00 – 21:00</td></tr><tr><td>Iau</td><td>07:00 – 21:00</td></tr><tr><td>Gwener</td><td>07:00 – 21:00</td></tr><tr><td>Sadwrn</td><td>07:00 – 21:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>08:00 – 20:00</td></tr></tbody></table> | Llun | 07:00 – 21:00 | Mawrth | 07:00 – 21:00 | Mercher | 07:00 – 21:00 | Iau | 07:00 – 21:00 | Gwener | 07:00 – 21:00 | Sadwrn | 07:00 – 21:00 | Sul | 08:00 – 20:00 |
| Llun | 07:00 – 21:00 | | | | | | | | | | | | | | |
| Mawrth | 07:00 – 21:00 | | | | | | | | | | | | | | |
| Mercher | 07:00 – 21:00 | | | | | | | | | | | | | | |
| Iau | 07:00 – 21:00 | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwener | 07:00 – 21:00 | | | | | | | | | | | | | | |
| Sadwrn | 07:00 – 21:00 | | | | | | | | | | | | | | |
| Sul | 08:00 – 20:00 | | | | | | | | | | | | | | |
| Pellter | 80 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir bryniog. | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynhyrchion a Gwasanaethau | Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd. | | | | | | | | | | | | | | |
| Hygyrchedd a gwaith hygyrchedd | <p>Mynediad a chyfleusterau Bydd y mynediad ar hyd ramp parhaol a bydd yna ddrws llydan wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.</p> <p>Parcio Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd.</p> | | | | | | | | | | | | | | |
| Y Siop | Siop gyfleustra | | | | | | | | | | | | | | |
| Dyddiad yr Adleoliad | 13:00 ar Dydd Mawrth 20 Mehefin, 2017 | | | | | | | | | | | | | | |

Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Cwm-parc

Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 223344 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk

| | Y gangen newydd |
|--|---|
| Post | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Special Delivery | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ |
| Parseli Express a chontract | Express 24 a 48 |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure) | ✓ |
| Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✗ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| Codi arian, adneuo a thaliadau | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio Personol a Busnes: codi arian, adneuo ac ymholiadau balans wrth ddefnyddio cerdyn. Hefyd, adneuo sieciau mewn amlen a sliopiau adneuo â chod bar. | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ |
| Talu Biliau | |
| Taliadau bil awtomataidd (cerdyn neu â chod bar) | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ |
| Transcash (heb god bar) | ✗ |
| Trwyddedau | |
| Trwyddedau pysgota â gwialen | ✓ |
| Teithio | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ |
| Arian Teithio ar gais | Ewros |
| Atgyfeirio yswiriant teithio | ✓ |
| Talu â siec | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ |
| Terfynell Loteri Cenedlaethol | ✓ |
| Talu â siec | ✗ |
| Mae'r cynhyrchion sydd wedi'u nodi â ✗ ar gael yn Swyddfa Bost Treorci, 21-23 Y Stryd Fawr, Treorci, CF42 6NP | Oriau agor: Llun – Gwen 08:00 – 17:30 Sad 09:00 – 12:30 |